
CYD-BWYLLGOR GwE

04.10.2017

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr: Gareth Thomas – Cadeirydd (Cyngor Gwynedd, Phil Wynn – Is Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw-Hilditch Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Garffild Lewis (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy).

Swyddogion heb bleidlais: Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Delyth Molyneux (Cyngor Sir Ynys Môn), Jullian Molloy (Cyngor Sir Ddinbych).

Hefyd yn bresennol: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Steve Vincent (Llywodraeth Cymru), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Rita Price (Esgobaeth Wrecsam), Diane Chisholm (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwr), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Dr Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Derbyniwyd y cofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22 Medi 2017 fel rhai cywir.

5. CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION ESTYN

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE yn diweddar aelodau'r Cydbwyllgor ar y cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion a nodir yn adroddiad Estyn ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortium Gogledd Cymru. Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor mynegi eu barn am yr adroddiad gan ystyried y ddwy elfen y bydd Estyn yn fesur, sef y cynnydd yn erbyn y chwe argymhelliad, a gosod y cynnydd yng nghyd-destun y cynnydd sydd wedi digwydd ers sefydlu GwE.

Amlygwyd y dylid canmol cyflymder y cynnydd yn ystod yr amser a roddwyd, ond er bod y sefyllfa llawer mwy positif eleni, 'does dim modd rhagweld effaith y newidiadau ar wasanaethau GwE.

Derbyniwyd sylwadau y Cydbwyllgor a diolchodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE am eu cyfraniad a nodwyd y byddai'n ystyried y sylwadau.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

6. CYNLLUN BUSNES 2017-2020 LEFEL 1

Cyflwynwyd adroddiad Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE yn nodi gweledigaeth 3 blynedd, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE monitro chwarter 1 y Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020

Cafwyd trafodaeth o amgylch yr agweddau oedd yn peri pryder.

Amlygwyd perfformiad mathemateg fel mater sydd angen sylw. Cyfeiriwyd at y gofrestr risg a cafwyd trafodaeth pellach yn yr eitem i ddilyn.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

7. COFRESTR RISG

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y gofrestr risg ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor. Nodwyd bod y gofrestr risg yn ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru, ac yn galluogi GwE i gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad. Pwysleisiodd fod y gofrestr risg yn agored i aelodau'r Cydbwyllgor ac yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Croesawyd unrhyw sylwadau gan y Cydbwyllgor.

Tynnwyd sylw at y golofn 'lliniaru'r risg' ac amlygwyd bod angen cryfhau R1 a R2.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

8. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Cyflwynwyd adroddiad ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2017/18-2020/21 gan Bennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cynnwys yr amcangyfrifon gorau bosib yn wyneb yr her ariannol ac ansicrwydd y dyfodol.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

9. POLISI A FFRAMWAITH GWERTH AM ARIAN

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE Polisi Gwerth am Arian a Fframwaith GwE i'r Cydbwyllgor. Nodwyd mai'r amcan yw sicrhau perfformiad 'absoliwt', targedu a gwella adnoddau, a chynyddu iechyd sefydliadol y gweithlu. Amlygir bod staff GwE yn ymwybodol o'r amcanion hyn ac yn cefnogi'r polisi.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.